Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arweinwyr Awdurdodau Lleol
Partneriaid Allweddol y Trydydd Sector

Chwefror 2013

Annwyl Gyfaill

Newidiadau i Gronfa Gymdeithasol Ddewisol Llywodraeth y DU

Fel y gwyddoch o bosibl, bydd elfennau o'r Gronfa Gymdeithasol bresennol a ddarperir gan Lywodraeth y DU, sef yn benodol y Grantiau Gofal Cymunedol a Fenthyciadau Brys Dewisol, yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2013. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynllun ei hun o fis Ebrill 2013 ymlaen.

Yn dilyn ymgynghoriad, rwyf wedi penderfynu y bydd gwasanaeth cenedlaethol ar gael i ddarparu Cronfa Cymorth Personol Llywodraeth Cymru. Bydd y gwasanaeth hwnnw'n cynnwys dwy elfen, sef Taliad Cymorth Unigol, a Thaliad Cymorth Brys. Mae Northgate Public Services PLC wedi'i benodi'n ddarparwr ar ein rhan i gyflwyno'r gwasanaeth newydd yng Nghymru, a byddant yn cydweithio â Chronfa'r Teulu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ddarparu'r cynllun.

Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal i gynnig gwybodaeth am y cynllun newydd yn ystod mis Chwefror. Mae fy swyddogion eisoes wedi dosbarthu manylion am y digwyddiadau hyn ymysg rhwydweithiau ein rhanddeiliaid mewn e-bost. Arweiniodd hyn at ddiddordeb mawr ymysg cynrychiolwyr sy'n dymuno neilltuo lle ar y digwyddiadau hyn. Gobeithio y bydd eich staff sydd wedi sicrhau lle yn ei chael hi'n ddefnyddiol i fod yn bresennol gan fy mod yn gwybod y bydd y cynllun yn fwy effeithiol os yw'n cael ei gefnogi gan ein rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@cymru.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%) paper

Printed on 100% recycled

Yn y cyfamser, roeddwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth gryno am y gwasanaeth, gan gynnwys rhestr o gwestiynau cyffredin ac atebion. I gefnogi'r trafodaethau am y cynllun, bydd fy nhîm yn cadw mewn cysylltiad â Northgate Public Services PLC ac yn dosbarthu'r newyddion diweddaraf i chi bob wythnos drwy gydol mis Chwefror a mis Mawrth, fel ein bod yn gallu ymateb i ymholiadau a sicrhau bod y rhanddeiliaid yn gwybod am yr hyn sy'n digwydd.



Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Pa elfennau o'r Gronfa Gymdeithasol sy'n cael eu trosglwyddo o'r Adran Gwaith a Phensiynau i Lywodraeth Cymru?

Bydd Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng ar gyfer Treuliau Byw yn cael eu diddymu o fis Ebrill 2013 ac mae cyllid ar gyfer darpariaeth amgen yng Nghymru wedi cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Pryd y maen nhw yn trosglwyddo?

O Ebrill 1af. Bydd y ddarpariaeth yn dechrau ar yr 2il o Ebrill oherwydd gwyliau'r banc.

Beth fydd enw'r cynllun newydd yng Nghymru?

Enw'r cynllun fydd y Gronfa Cymorth Dewisol. O fewn y cynllun bydd dau fath o gymorth: Taliadau Cymorth Unigol a Thaliadau Cymorth Brys.

A fydd y cynllun yn cynnwys benthyciadau?

Na fydd. Bydd y Taliad Cymorth Unigol a'r Taliad Cymorth Brys yn grantiau ac nid ydynt yn ad-daladwy.

Pwy fydd yn gymwys i gael cymorth drwy'r cynllun?

Byddwn yn darparu gwybodaeth fanwl am gymhwysedd ar ôl digwyddiadau rydym yn eu cynnal ym mis Chwefror.

Sut fydd ymgeiswyr yn gwneud cais?

Byddant yn gallu gwneud cais drwy wefan gyhoeddus, dros y ffôn neu drwy'r post.

Gan fod y wefan yn safle cyhoeddus, rydym yn bwriadu annog cymaint â phosibl o sefydliadau lleol yn eich ardal (gwirfoddol neu fel arall) i gynorthwyo pobl i wneud cais.

Trwy hyn byddem yn gobeithio y gallai ceisiadau gael eu cefnogi gan nifer o sefydliadau ar draws Cymru gan sicrhau bod mwy o bobl yn cael mynediad i'r gronfa.

Sut y codir tâl am y galwadau ffôn?

Bydd yn rhif 0845 sy'n golygu y codir tâl am y galwadau i gyd ar gyfradd leol.

A fydd yna gyfeiriad Rhadbost?

Na fydd.

Sut y bydd dinasyddion yn cael gwybod am y gwasanaeth hwn?

Nid ydym yn bwriadu lansio ymgyrch i wneud dinasyddion yn ymwybodol o'r newidiadau hyn oherwydd gallai hynny godi disgwyliadau mewn modd amhriodol. Er y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hysbysu ymgeiswyr am y newidiadau, yr elfen allweddol yw bod gan Bartneriaid fel chi, a fydd yn cynghori ac yn arwain cleientiaid, y wybodaeth angenrheidiol am y gwasanaeth.

Sut y bydd partneriaid yn gwybod am y gwasanaeth?

Un thema gref o'r broses ymgynghori oedd y dylai unrhyw gynllun newydd gael ei weld fel rhan o wasanaeth llawer mwy cyfannol. Mae partneriaid yn gweithio gyda chleientiaid mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd ac amgylchiadau a byddant yn gwybod y canlyniadau y maent yn ceisio'u cyflawni ar gyfer yr unigolyn. Mynegodd partneriaid ddymuniad i allu helpu i gefnogi eu cleientiaid drwy'r broses o wneud cais heb iddyn nhw fod yr un sy'n gwneud y penderfyniad,

oherwydd teimlid y gallai hynny arwain at beryglu'r berthynas gyda'r cleient. Am y rhesymau hyn i gyd mae cynnwys partneriaid yn hanfodol. Rydym am i'n partneriaid ddeall y gronfa, y polisi, pwy fydd yn gymwys, pwy na fydd yn gymwys, pryd mae'n briodol cefnogi, a phryd nad yw'n briodol.

Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Partneriaid ar gyfer y Gronfa Cymorth Personol a byddwn yn darparu hyfforddiant ar gyfer y sefydliadau hyn er mwyn iddynt allu cyfeirio at y Gronfa fel un o'r opsiynau i'w cleientiaid. Bydd manylion am yr hyfforddiant hwn ar gael yn y digwyddiadau ym mis Chwefror.

Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad am y cais?

Northgate Public Services yw'r darparwr ar gyfer y gwasanaeth yng Nghymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Family Fund Trading Ltd. Mae Northgate yn sefydlu swyddfa newydd yn Wrecsam i gyflenwi'r gwasanaeth a byddant hefyd yn cyflenwi rhai elfennau o safle sydd ganddynt ar hyn o bryd yn Wynyard ac yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr.

Mae'r system y bydd eu swyddogion yn ei defnyddio yn cynnwys cyfres o gwestiynau cymhwyster a fydd yn helpu i benderfynu yn eithaf cyflym a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r ymgeisydd ai peidio. Mae pob cwestiwn yn y cais yn cael ei sgorio ac mae hyn yn golygu bod meini prawf gwrthrychol yn cael eu defnyddio i wneud y penderfyniad mewn modd teg a chyson.

I ba ddiben y gellir defnyddio'r grantiau?

Diben y Taliad Cymorth Unigol yw galluogi dinasyddion i sefydlu eu hunain neu i aros yn y gymuned. Bydd y Taliadau Cymorth Brys yn rhoi cymorth mewn argyfwng neu pan fydd yna fygythiad uniongyrchol i iechyd neu les. Byddwn yn darparu manylion pellach am bwrpas y grantiau yn y digwyddiadau ym mis Chwefror.

Sut fydd y grantiau yn cael eu talu?

Un o'r ymatebion clir o'n hymgynghoriad oedd y dylem geisio lleihau nifer y taliadau a wneir mewn arian parod. Gwneir hyn trwy ddefnyddio dull amgen a fydd yn rhoi cardiau talu i'r ymgeiswyr y gellir eu defnyddio i gael nwyddau mewn siopau. Mae llawer o'r adwerthwyr a ddefnyddir yn dosbarthu i'r cartref mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn ei chael yn anodd i gyrraedd y siop. Mae Family Fund Trading Ltd yn darparu hyn ar gyfer y gwasanaeth Cymreig ac maent wedi bod yn gwneud hyn ar gyfer grantiau a roddir i deuluoedd sydd â phlant ag anableddau dros y 12 mlynedd diwethaf.

Weithiau arian parod yn unig fydd yr ateb - sut y bydd hwn yn cael ei ddarparu?

Ar gyfer Taliadau Cymorth Brys mewn sefyllfa lle mai arian yw'r unig ateb mae Northgate a'r Gronfa Deuluol wedi sefydlu gwasanaeth gyda PayPoint. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i gyrchu at yr arian y mae arnynt ei angen yn eu safle PayPoint lleol drwy gyflwyno cod unigryw. Mae gan PayPoint dros 2000 o safleoedd ledled Cymru sy'n sicrhau mynediad da i ddinasyddion. Mae'r gwasanaeth yn gallu darparu taliadau drwy BACS hefyd i ymgeiswyr sydd â chyfrif banc.

Pa rôl fydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y gwasanaeth?

Wrecsam yw un o'r partneriaid Northgate yn y gwasanaeth ac yma y lleolir y Ganolfan Fusnes newydd sy'n cael ei sefydlu. Mae Cyngor Wrecsam yn estyn ei brofiad a'i arweiniad o ran gwella profiad y dinesydd a sicrhau mynediad teg. Bydd Cyngor Wrecsam yn eistedd ar Fwrdd Gweithredol y gwasanaeth a bydd yn cynrychioli'r rhwydwaith o bartneriaid.